


## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Owen Roberts (Henllan) brynhawn Gwener diwethaf. Bydd pawb oedd yn ei adnabod yn cofio'i ddyfalwch, ei hiwmor, a'i gariad mawr at ei deulu. Gwyddom hefyd am y gofal arbennig a gafodd yntau gan y teulu, yn arbennig felly dros y blynyddoedd diwethaf hyn, a chyflwynwn ei wraig, Hafwen, a'i ddwy ferch, Mair a Jane, a gweddill y teulu yn dyner iawn i ofal Duw. Hyderwn y bydd Iesu ei hun yn gwmni ac yn gysur iddynt oll yn eu galar a'u hiraeth.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Maldwyn Davies (Tanyfron) sy'n gobeithio cael dod adre o'r ysbyty y penwythnos hwn wedi iddo gael llawdriniaeth ar ei ddau benglin ddechrau'r wythnos. Parhawn i gofio hefyd am Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae'n dda cael adrodd fod Elizabeth Jones (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn hwy oll yn ein gweddïau i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Estynnwn ein llongyfarchion i Mrs Kate Owen (Cefn Meiriadog) sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed! Yr ydym yn diolch i Dduw amdani ac yn dymuno pob bendith eto fyth i'r dyfodol.

## Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

## Y Beibl Canllaw



Ar Awst 6ed, bydd 'Y Beibl Canllaw' yn cael ei gyhoeddi. Nid llyfr am y Beibl yw hwn, ond y Beibl ei hun gyda 'chanllawiau' syml sy'n esbonio'r ystyr ac yn egluro'r neges mewn arddull gyfoes. Mae'r 'canllawiau' yn cynnwys nodiadau i egluro adnodau sy'n ymddangos yn dywyll ar yr olwg gyntaf, cyfeiriadau ar ymyl y ddalen at adnodau eraill sy'n berthnasol, cyflwyniadau i themâu a llyfrau'r Beibl . . . lluniau, mynegai, geirfa, a llawer mwy. Pris y llyfr yw £25 ond cynigir prisiau gostyngol i rai sydd am archebu mwy nag un copi. Os am fanteisio ar y gostyngiad (fydd o leiaf £5), rhowch eich archeb i Mair **erbyn Gorffennaf 19eg**, os gwelwch yn dda.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 18:1-5 (BCND tud.21 / BCN: tud.19)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Gorffennaf 2015 (BCND tud.77 / BCN: tud.70)


## Darlleniad y Dydd

Luc 10:21-24

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso cynnes i chi i oedfaon y dydd ym Mro Aled heddiw. Wrth i ni agosáu at gyfnod gwyliau'r ysgol, diolchwn am ddydd Sul sy'n gyfle i ni orffwys yn yr hyn y mae Iesu wedi ei wneud drosom, a chlodforwn yr Arglwydd mawr sy'n deilwng iawn o fawl. (Salm 96:4)

Gan i mi gael fy magu yn Neiniolen ar ddiwedd yr 80au, roedd teithiau i weld yr Orsaf Bŵer Dŵr yn Ninorwig yn gyffrous iawn i mi fel plentyn. Hyd heddiw gallaf ailadrodd ffeithiau pwysig fel bod gwagle maint Cadeirlan St. Paul wedi cael ei dyllu allan o grombil Elidir Fawr er mwyn rhoi'r tyrbinau yno, ac y gall yr orsaf gynhyrchu trydan o fewn deuddeg eiliad i wasgu'r botwm i ryddhau'r dŵr! Ond ar un daith arbennig cefais dipyn o siom. Cyn i'r bws fynd i mewn i dwnelau'r orsaf, arhosodd ar lan Llyn Peris a phwyntiodd ein hathro at lethrau'r Wyddfa. Eglurodd fod rhai pobl o graffu'n ofalus yn gallu gweld ffurf hen wraig yn y patrwm cerrig ar y llethr. Er syllu a syllu, welais i ddim yno ond mynydd caregog digon cyffredin. Pam nad oeddwn i'n gallu gweld y siâp rhyfedd hwn fel pobl eraill? Yn y darlleniad heddiw mae Iesu yn gorfoleddu yn yr Ysbryd Glân mai pobl benodol sy'n dod i weld ei fawredd a derbyn gobaith ynddo Ef. Mae'r disgyblion wedi bod yn dystion i nerth anferthol Crist wrth iddynt deithio o gwmpas y wlad yn bwrw allan ysbrydion aflan yn ei enw Ef, ond wedi dychwelyd at Iesu mae'n eu hatgoffa mai'r hyn ddylai beri llawenydd iddynt yw'r ffaith fod eu henwau hwy wedi eu hysgrifennu yn y nefoedd. (Luc 10:20) Nid pobl glyfar a dawnus yw'r rhai sy'n dod i sylweddoli mai Iesu yw'r Achubwr, ond y rhai sydd wedi derbyn rhodd trwy ffydd, y rhai y mae Duw wedi dewis yn ei ras i agor eu llygaid. Meddyliwch y fath gysur sydd yna i ni o wybod nad yw pwy ydym yn ffactor allweddol wrth ddod i adnabod Duw – haelioni Duw sy'n gwneud y gwahaniaeth, a'i barodrwydd Ef trwy'r Ysbryd Glân i agor llygaid y deillion. Duw sy'n dod â'r pechadur i sylweddoli mor druenus ydyw ac mor gwbl addas yw'r Arglwydd Iesu fel achubwr tragwyddol. A'r fath fraint yw hon – dod i weld gogoniant Duw yn Iesu Grist, a sylweddoli mai prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid. (Rhufeiniaid 5:8) Ydym ni wedi gofyn i Dduw 'agor ein llygaid i weled yr Iesu', ac wrth wneud hynny ydym ni'n barod i agor ein calon i'w adnabod Ef?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

*Rhodri*

## Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 12<sup>fed</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup>
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer y criw dosbarth derbyn) yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i'r rhai oedd yn methu dod i'r sesiwn cyntaf i ymuno.
- Mercher – 15<sup>fed</sup>
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
  - **Adnabod Cymdeithasol** – Taith Gerdded hamddenol. Byddwn yn cyfarfod am 6.30 ym maes parcio Llanefydd. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aneurin, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Meurig a Lisa yn cyflwyno Elis i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron ac ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul am 2.00. Ni chynhelir Oedfa nac Ysgol Sul yn Groes heddiw ond bydd croeso i ymuno mewn oedfa arall.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sadwrn – 18<sup>fed</sup> **Trip Ysgol Sul Llanefydd i'r Brenig:** beicio, cerdded neu fwynhau wrth y llyn. Cyfarfod yn y Brenig am 2.00 a swper yn y Caffi yn Brenig am 5.30. Enwau i Erina erbyn nos Lun, Gorffennaf 13eg, os gwelwch yn dda.
- Taith i Enlli:** Cyfle i groesi i Ynys Enlli, ac yna galw yn y Felin Ucha i weld y murlun *Duw, Cariad Yw*. Mae angen bod yn Aberdaron erbyn 10.00. Enwau i Mair, Ty'n Rhewl erbyn nos Lun Gorffennaf 13eg, os gwelwch yn dda – dim ond lle i 12 sydd ar y cwch, felly y cyntaf i'r felin....
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.